CYMRU
HEB
DRAIS



Cymru Heb Drais

# Safbwyntiau plant a phobl ifanc



Ysgrifennwyd gan **Dr Alex Walker**,
Swyddog Canlyniadau Atal Trais,
Uned Atal Trais Cymru

Uned **Atal** Trais
Violence **Prevention** Unit

# Dychmygwch Cymru heb Drais.



Cymru Heb Drais: Safbwyntiau plant a phobl ifanc.
Ysgrifennwyd gan Dr Alex Walker, Swyddog Canlyniadau Atal Trais,
Uned Atal Trais Cymru: 978-1-83766-189-3

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Cynnwys


4 Cefndir

5 Dulliau ymgysylltu

6 Demograffeg

9 Mathau o drais a nodwyd gan blant a phobl ifanc

10 Hunaniaeth a thrais

12 Gweithgareddau effeithiol er mwyn atal trais

14 Blaenoriaethau er mwyn atal trais

16 Y pŵer i newid

19 Cymru heb drais

20 Crynodeb




# Cefndir

Yn 2022/23, gweithiodd Uned Atal Trais Cymru (VPU) gyda Peer Action Collective Cymru (PAC) i gydgynhyrchu Cymru Heb Drais: Fframwaith Strategol a Rennir ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (o hyn allan, y 'Fframwaith'). Er mwyn llywio'r Fframwaith hwn, ceisiodd y VPU a PAC archwilio a chasglu profiadau, syniadau a dyheadau plant a phobl ifanc ledled Cymru.

I wneud hyn, gwnaethant gyflwyno ymgynghoriad rhyngweithiol ar-lein i blant a phobl ifanc rannu eu barn am y Fframwaith. Buont hefyd yn mynychu digwyddiadau ymgysylltu cymunedol, yn cynnal gweithdai, a rhedeg siop dros dro yng Nghaerdydd.

Gyda'i gilydd, ymgysylltodd y VPU a PAC â dros 470 o blant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru ar gyfer y Fframwaith. Roedd yr holl adborth a dderbyniwyd gan blant a phobl ifanc yn ddienw, a chymeradwywyd casglu data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraethu Gwybodaeth.

Ochr yn ochr â'r ymgysylltu penodol i'r Fframwaith, cyfwelodd PAC â 600 o blant a phobl ifanc ychwanegol fel rhan o'u rhaglen ymchwil eu hunain. Rhoddodd PAC adborth i'r VPU ar y pethau yr oeddent wedi'u dysgu gan blant a phobl ifanc.


Mae'r mewnwelediadau gan y plant a'r bobl ifanc wedi'u defnyddio i lywio'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Fodd bynnag, teimlwyd bod y wybodaeth a gasglwyd gan y plant a'r bobl ifanc yn rhoi cipolwg heb ei ail ar y materion sy'n effeithio fwyaf arnynt, yn ogystal â'r blaenoriaethau ar gyfer atal trais, a'i bod yn haeddu cael ei hamlygu yn ei rhinwedd ei hun. Felly, mae'r VPU wedi cynhyrchu'r adroddiad hwn i helpu gweithwyr proffesiynol eraill i ddeall safbwyntiau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Teimlai VPU a PAC yn gryf iawn y dylai'r Fframwaith gael ei ddatblygu gan ac ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Cymru heb drais yn un lle mae pawb yn ffynnu, mae pobl yn cael eu trin yn gyfartal, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'n fan lle gwrandewir ar blant a phobl ifanc, a lle caiff atebion eu datblygu gyda'i gilydd. Ymhellach, mae'r Fframwaith yn defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant, lle mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i ddweud eu dweud am y materion sy'n effeithio arnynt.



# Dulliau ymgysylltu

Er mwyn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu dal o bob rhan o Gymru, defnyddiwyd sawl dull gwahanol o ymgysylltu.



## Ymgynghoriad rhyngweithiol ar-lein

Datblygodd VPU a PAC offeryn arolwg ar-lein i archwilio canfyddiadau plant a phobl ifanc o drais, ac atal trais, yn eu cymunedau. Hysbysebwyd yr arolwg hwn trwy gyfryngau cymdeithasol, y siop dros dro a gwefan Cymru Heb Drais, a bu'n rhedeg am 6 wythnos.


Gofynnodd yr arolwg gwestiynau fel:

- Yn eich barn chi, beth yw'r materion mwyaf cyffredin y mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu?
- Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer atal trais ymhlith plant a phobl ifanc?
- Pa grwpiau o bobl ydych chi'n meddwl sydd â'r pŵer i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc?



## Siop dros dro

Fe wnaeth PAC rentu siop yng Nghaerdydd a'i throi'n siop dros dro, lle gallai aelodau o'r gymuned, yn enwedig plant a phobl ifanc, alw heibio i ddysgu mwy am y Fframwaith, siarad am eu profiadau o drais, yr atebion, a chymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys cwblhau'r ymgynghoriad rhyngweithiol ar-lein, ysgrifennu cyngor i blant a phobl ifanc eraill, ac ysgrifennu ar gardiau post i egluro (1) beth sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n ddiogel a (2) beth mae angen i gymdeithas ddechrau siarad amdano.



## Digwyddiadau cymunedol

Roedd hyn yn cynnwys y VPU yn cael stondin mewn amrywiol ffeiriau'r glas a gynhaliwyd gan brifysgolion ledled Cymru a oedd yn caniatáu ar gyfer ymgysylltu â phobl dros ddeunaw oed. Roedd gan yr VPU stondin hefyd yn nrama Choice of a Lifetime  De Cymru, a oedd yn caniatáu ymgysylltu â phlant a phobl ifanc oed ysgol, 12-14 oed yn bennaf. Cynhaliodd PAC hefyd stondinau mewn amrywiol ddigwyddiadau Pride. Yn y digwyddiadau hyn, gofynnwyd i blant a phobl ifanc (1) beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer atal trais yn eich barn chi? a (2) sut olwg fyddai ar Gymru heb drais i chi?




## Gweithdai cymunedol

Cynhaliodd PAC weithdai gydag aelodau o'r gymuned, yn enwedig gyda chymunedau amrywiol, i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu cynnwys yn y Fframwaith. Mynychwyd y gweithdai hyn gan blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a gwneuthurwyr newid. Gwneuthurwyr newid yw plant a phobl ifanc rhwng 10 ac 20 oed, fydd yn cymryd y dysgu o ymchwil PAC a'i droi'n weithredu.


# Demograffeg

Rhannodd dros 470 o blant a phobl ifanc eu profiadau gyda'r VPU a PAC. Roedd ychydig llai na thri chwarter y rhain rhwng 18-24 (ffigur 1) oed a dwy ran o dair yn fenywod (ffigur 2).

Ffigur 1: Ystod oed  y plant a phobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori




Ffigur 2: Rhywedd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori




Ymatebodd plant a phobl ifanc o bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i'r arolwg, fodd bynnag, roedd cyfran fawr o'r plant a'r bobl ifanc yn byw yng Nghaerdydd neu Geredigion (ffigur 3).

Mae'n bwysig nodi bod y rhain yn ardaloedd lle cynhaliodd VPU/PAC ddigwyddiadau ymgysylltu ychwanegol (ee ffeiriau'r glas).


Sylwer bod nifer yr ymatebwyr mewn rhai ardaloedd yn gymharol isel; felly, i ddiogelu eu hunaniaeth, mae ardaloedd â chynrychiolaeth isel wedi'u huno.

Ffigur 3: Ardal awdurdod lleol lle roedd plant a phobl ifanc yn byw




Disgrifiodd ychydig dros ddwy ran o dair o'r plant a'r bobl ifanc eu hunaniaeth rywiol fel heterorywiol (ffigur 4),  ac roeddent yn bennaf yn Wyn Cymreig neu Gwyn Prydeinig (ffigur 5).

Ffigur 4: Hunaniaeth rhywiol y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori




Ffigur 5: Ethnigrwydd y plant a'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y gweithgareddau ymgynghori



# Mathau o drais a nodwyd gan blant a phobl ifanc

## Yn eich barn chi, beth yw'r materion mwyaf cyffredin yn eich ardal mewn perthynas â thrais ymhlith plant a phobl ifanc?

Yr ateb amlycaf o bell ffordd i'r cwestiwn hwn oedd bwlio, ar-lein ac all-lein, gydag **1 o bob 2** o blant a phobl ifanc yn rhoi'r ateb hwn. Roedd hyn yn cynnwys sïon cas.

Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:


- Trais yn y cartref
- Cam-drin yn y cartref
- Aflonyddu rhywiol
- Stelcian
- Trais rhywiol
- Trais gang
- Troseddau cyllyll
- Troseddau casineb (cam-drin traws, cam-drin hiliol a homoffobia)



Ac, er nad yn fathau o drais ymhlith plant a phobl ifanc, roeddent hefyd yn pryderu am gyffuriau a lladrad.

# Hunaniaeth a thrais

**Yn eich cymuned, sut ydych chi'n meddwl bod hunaniaeth plentyn neu berson ifanc yn effeithio ar eu profiad o drais?**



Roedd yr ymatebion gan blant a phobl ifanc yn cynnwys ethnigrwydd, tlodi a chrefydd. Isod mae rhestr lawn o'r pethau roedd plant a phobl ifanc yn teimlo sy'n effeithio ar eu profiadau o drais, ynghyd â dyfyniadau ategol yn uniongyrchol o ymatebion y plant a'r bobl ifanc.

**Hunaniaeth rywiol**

*"Mae pobl hoyw yn darged llawer o gasineb."*

**Ethnigrwydd**

*"Mae grwpiau ethnig yn darged llawer o gasineb."*

**Hunaniaeth rhywedd**

*"Mae menywod yn poeni wrth wisgo, cerdded ar eu pen eu hunain a bod yn ddiogel yn y tywyllwch."*

**Tlodi**

*"Mae cefndiroedd llai breintiedig yn methu fforddio eitemau newydd ac efallai'n cael eu gwawdio o ganlyniad."*

**Teuluoedd**

*"Mae teuluoedd camweithredol yn fwy tebygol o brofi trais."*

**Ymddangosiad**

*"Mae'r rhai sy'n dewis gwisgo'n wahanol yn aml yn cael eu bwlio a'u haflonyddu."*

**Crefydd**

*"Mae'r rhai sydd â chredoau crefyddol gwahanol yn aml yn cael eu trin yn wahanol."*

**Niwroamrywiaeth**

*"Yn aml gall plant a phobl ifanc sy'n niwroamrywiol ddioddef trais."*

## Beth allwn ni fel cymdeithas ei wneud i sicrhau nad yw hunaniaeth person ifanc yn eu rhoi mewn mwy o berygl o drais?

Teimlai'r ymatebwyr fod yna ychydig o bethau y gallem eu gwneud fel cymdeithas i sicrhau nad yw eu hunaniaeth yn eu rhoi mewn mwy o berygl o drais.

Mae'r ymatebion amlycaf isod:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Deall, derbyn a hyrwyddo gwahanol hunaniaethau | Lleihau anghydraddoldeb | Addysg am drais a sut i aros yn ddiogel | Bod yn fwy parod i wrando ar blant a phobl ifanc a dysgu ganddynt |
| Mwy o bresenoldeb ac ymgysylltiad yr heddlu | Darparu cefnogaeth a chwnsela am ddim, sydd ar gael i bawb sydd ei angen | Mwy o weithgareddau allgyrsiol a mwy o gyfleoedd gwaith/ gwirfoddoli | Deddfau llymach |




# Gweithgareddau effeithiol er mwyn atal trais



**Pa mor effeithiol ydych chi'n meddwl fyddai'r newidiadau a'r gweithgareddau hyn o ran lleihau trais ymhlith plant a phobl ifanc yn eich cymuned?**

Ffigur 6: Newidiadau a gweithgareddau effeithiol




Teimlai'r plant a'r bobl ifanc mai cefnogi teuluoedd a gofalwyr i greu cartrefi mwy diogel fyddai'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf o ran lleihau trais yng Nghymru. Dilynwyd hyn gan greu mannau diogel, gwrando ar blant a phobl ifanc, a chymorth cynnar.

## A oes unrhyw beth arall y credwch y gallem ei wneud fel cymdeithas i helpu i atal trais ymhlith plant a phobl ifanc yn eich cymuned (yn yr ysgol, ar-lein neu gartref)?

Roedd gan y plant a phobl ifanc lawer o syniadau am bethau y gallem eu gwneud fel cymdeithas i helpu i atal trais ymhlith plant a phobl ifanc yn y gymuned. Cyflwynir yr awgrymiadau mwyaf cyffredin isod:

- Mwy o glybiau ieuenctid i roi cyfrwng cadarnhaol i blant a phobl ifanc.
- Mwy o blismona a'r heddlu yn mynd ati i wella eu perthynas â phlant a phobl ifanc.
- Cardiau rhodd fel bod plant a phobl ifanc yn gallu prynu eitemau angenrheidiol na fyddent o bosibl yn gallu eu fforddio fel arall.
- Ymgyrchoedd i gynnwys plant a phobl ifanc mewn atal trais.
- Mannau cyfrinachol â mynediad hawdd lle gall plant a phobl ifanc siarad am eu pryderon, a chael cyngor a chymorth am ddim. Dylai hwn fod yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc.
- Mwy o ymwybyddiaeth o wahanol fathau o drais a ble i gael cymorth.
- Integreiddio grwpiau oedran gwahanol fel y gall y rhai hŷn fod yn gyfeillion i'r rhai iau.
- Rheoleiddio deunydd ar y we i amddiffyn plant a phobl ifanc rhag y cynnwys niweidiol ar-lein.
- Rheoliadau llymach mewn ysgolion i atal bwlis.

# Blaenoriaethau er mwyn atal trais

## Beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer atal trais ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru?



Amlinellodd y plant a phobl ifanc sawl blaenoriaeth ar gyfer atal trais ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Roedd y blaenoriaethau hyn yn cynnwys cael oedolion y gellir ymddiried ynddynt, gwell systemau adrodd, a gwell mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chymorth. Cyflwynir rhestr lawn isod, gyda dyfyniadau gan y plant a phobl ifanc.

**Oedolion y gellir ymddiried ynddynt:** Oedolion hawdd mynd atynt, anfeirniadol i ymddiried ynddynt. Mae angen i'r oedolion hyn fod yn 'haws mynd atynt ac yn hawdd siarad â nhw', a dylent gynnig i'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw 'gefnogaeth waeth beth maen nhw wedi'i wneud'. Teimlwyd bod angen i oedolion 'fod yn fwy agored a llai beirniadol tuag atom ni [plant a phobl ifanc]'. Teimlwyd bod angen i oedolion wneud mwy i ennill ymddiriedaeth plant a phobl ifanc.

**Ymwybyddiaeth:** Addysgu plant a phobl ifanc am beryglon trais, sut i roi gwybod am bryderon, ble i gael cymorth, a chanlyniadau cymryd rhan mewn trais. Teimlai'r plant a'r bobl ifanc y gellid gwneud mwy i 'addysgu pobl mewn ysgolion am y peryglon', 'addysgu'r canlyniadau' a 'gwybod yr arwyddion ar gyfer pan fydd rhywbeth yn wael fel y gallwch roi gwybod amdano'.

**Gweithgareddau a mannau diogel:** Amrywiaeth o weithgareddau diogel i blant a phobl ifanc gymryd rhan ynddynt. Roedden nhw eisiau 'mwy o weithgareddau i blant'. 'Buddsoddi mewn mwy o glybiau cymdeithasol', 'clybiau ieuenctid lleol' a 'clybiau bocsio'. Mae mannau diogel yn ymestyn y tu hwnt i adeilad ffisegol. Teimlai rhai o'r plant a'r bobl ifanc fod angen cludiant diogel arnynt hefyd, yn enwedig 'cludiant diogel yn hwyr yn y nos' a diogelwch ar-lein.

**Gweithgaredd â ffocws:** Mwy o ffocws ar faterion penodol a nodwyd gan blant a phobl ifanc. Roedd y pynciau penodol hyn yn cynnwys:

- Troseddau cyllyll
- Diogelwch i fenywod a merched
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Cydsyniad
- Sbeicio
- Dwyn ceir
- Dylanwad negyddol cyfryngau cymdeithasol
- Alcohol, cyffuriau ac ysmygu dan oed
- Delio cyffuriau

**Systemau adrodd:** Roedd y plant a'r bobl ifanc eisiau ffyrdd haws o adrodd am eu pryderon. Roeddent yn awgrymu cael ffyrdd symlach o adrodd am ddigwyddiadau sy'n hawdd eu cyrchu ac sy'n hysbys i aelodau'r cyhoedd. Galwodd y plant a phobl ifanc am 'ffyrdd haws o adrodd ac i'r heddlu ei drin o ddifrif'. Fe wnaethon nhw awgrymu cael 'heddlu ar-lein lle gall pobl adrodd a chyflwyno tystiolaeth o'u ffôn'. Fe awgrymon nhw y byddai hyn yn helpu pobl i adrodd am y trais a brofir gan aelodau'r cyhoedd. 'Rwy'n credu y dylai fod ffyrdd haws o adrodd am drais a mwy o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi'i brofi'.

**Gwasanaethau cymorth:** Roedd y plant a'r bobl ifanc a gwblhaodd yr arolwg yn teimlo bod angen mwy o wasanaethau cymorth a 'mwy o linellau cymorth i bobl sy'n dioddef ac yn teimlo

nad oes ganddyn nhw neb i siarad â nhw’. Yn benodol, roedd y plant a’r bobl ifanc eisiau i wasanaethau cymorth fod ar gael yn rhwydd yn economi’r nos. Ymhellach, teimlwyd bod angen ar bobl ifanc ‘well gwasanaethau cymunedol i ddod â phobl ynghyd’.

**Gwasanaethau iechyd meddwl:** Yn fwy penodol, dywedodd y plant a’r bobl ifanc y dylai gwell gwasanaethau iechyd meddwl fod yn flaenoriaeth ar gyfer atal trais yng Nghymru; ‘Rwy’n meddwl y dylai fod mwy o gefnogaeth i’r rhai sy’n cael trafferth gydag iechyd meddwl’. Dylai’r gwasanaethau hyn fod ar gael yn rhwydd ac nid “hei, gallwn drefnu lle i chi yn 2035, a yw hynny’n iawn?”. Ymhellach, mae angen ‘llai o stereoteipiau ar iechyd meddwl’.

Teimlwyd ‘byddai gwell gwasanaethau iechyd meddwl yn helpu’r achos dros bobl yn dymuno bod yn dreisgar’ a ‘Rwy’n meddwl y dylai’r ffocws fod ar iechyd meddwl gan fod llawer o drais yn y pen draw yn deillio o allu gwael i reoli emosiynau’.





# Y pŵer i newid

**Yn eich barn chi, pa grwpiau o bobl (unigolion, cymunedau, sefydliadau ac ati) sydd â'r pŵer i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc?**

Teimlai'r plant a'r bobl ifanc fod gan bawb mewn cymdeithas y pŵer i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc, ond yn enwedig y grwpiau o bobl a restrir isod.

- Oedolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc
- Y Llywodraeth
- Heddlu
- Staff ysgolion
- Y Cyngor
- Grwpiau ieuenctid
- Hyfforddwyr chwaraeon
- Cyfiawnder ieuenctid
- Rhieni
- Pobl ifanc
- Cyrff cyhoeddus
- Pobl wyn, yn enwedig dynion gwyn syth
- Lleiafrifoedd ethnig
- Gweithwyr cyfryngau
- Pobl gyfoethog
- Gwleidyddion
- Ffigurau yn y gymuned – arweinwyr crefyddol



## Ydych chi'n meddwl bod gan blant a phobl ifanc y pŵer i wneud newid i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc?


Dywedodd

**74%**

o'r ymatebwyr oes.

**Mae gan blant a phobl ifanc y pŵer oherwydd:**

- "Ni yw'r genhedlaeth nesaf."
- "Rydyn ni'n gwybod yn union beth mae plant a phobl ifanc yn mynd drwyddo."
- "Pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd, gyda chefnogaeth oedolion, gallwn wneud newid."




**Dywedodd y rhai a ddywedodd na:**

- "Dydyn ni ddim yn ddigon hen i wneud newid."
- "Dydyn ni ddim yn cael digon o bŵer."
- "Dydyn ni ddim yn cael y cyfleoedd i ddweud ein dweud."
- "Dim ond y rhai sydd wedi cael addysg dda sydd â'r pŵer i wneud newid."
- "Does gennym ni ddim llais."
- "Oherwydd bod oedolion yn rheoli gormod."
- "Oherwydd bod pobl ifanc yn rhy anaeddfed."

## Ydych chi'n meddwl bod gweithwyr proffesiynol (athrawon, gweithwyr ieuenctid, swyddogion heddlu, gweithwyr cymdeithasol, a phobl sy'n gweithio mewn cynghorau a'r llywodraeth) yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau?

Ffigur 7: Ydy gweithwyr proffesiynol yn gwrando ar farn plant a phobl ifanc?




**Eglurodd yr ymatebwyr:**

- "Mae creu senedd ieuenctid yn helpu gweithwyr proffesiynol i wrando arnom ni"
- "Mae ysgolion yn dda am hyrwyddo bywydau pobl ifanc"

- "Mae rhai athrawon yn fendigedig. Maent yn gefnogol, yn garedig ac yn dosturiol ond nid yw eraill i weld yn malio"
- "Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn gwneud, ond nid pob un"

- "Nid yw problemau pobl ifanc bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif"
- "Nid yw'r gwasanaethau cywir i helpu pobl i wrando arnom ni bob amser yn bodoli"
- "Dydyn nhw ddim yn sylweddoli bod gan bobl ifanc y pŵer i greu newid"
- "Sawl gwaith, roedd y gweithiwr proffesiynol yn anwybyddu syniadau'r person ifanc oherwydd ei oedran"

# Cymru Heb Drais


## Sut byddai bywydau plant a phobl ifanc yn wahanol pe na bai trais yn bodoli?

Dywedodd y mwyafrif o blant a phobl ifanc y byddai Cymru heb drais yn **HEDDYCHLON**, **DIOGEL** a **CHYFFORDDUS**.

Yn benodol, dywedasant y byddai Cymru heb drais yn caniatáu iddynt fynd allan heb ofn; ‘Mae’n debyg y byddwn i’n mynd allan mwy, ac yn llai ofnus’. Yn benodol, byddai Cymru heb drais yn caniatáu i bobl ifanc ‘Deimlo’n ddiogel i gerdded ar eu pen eu hunain yn y nos’. Roedd un person yn adnabod y pryder y mae ei rieni weithiau’n profi pan y mae y tu allan; ‘Byddwn i’n teimlo’n fwy diogel. Pan fyddaf yn mynd allan, ni fyddai fy rhieni mor bryderus ac o dan straen’. Byddai Cymru heb drais yn caniatáu i blant a phobl ifanc ‘deimlo’n fwy cyfforddus yn fy amgylchfyd’, ‘yn fwy diogel ac yn llai gwyliadwrus’ a ‘byddai pawb yn hapusach’. Byddai Cymru heb drais yn arwain at well cyfleoedd; ‘byddai fy mywyd yn well a byddwn yn symud ymlaen yn gyflymach’.

Cydnabu’r plant a’r bobl ifanc sut y gallai Cymru heb drais ddod yn ‘lle cyfeillgar’, hynny yw ‘sy’n ddiogel i bawb’ ac yn ‘lle diogel i siarad a chyfathrebu heb achosi perygl i chi nac i unrhyw un arall’. Pan fydd person ifanc yn gwneud penderfyniad gwael, ni ddylai gael canlyniadau parhaol; ‘peidiwch â difetha’ch bywyd oherwydd gwnaethoch ddewis gwael’.


**‘Byddwn yn teithio’r byd, yn ddi-ofn.’**





# Crynodeb

Trwy'r digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhaliwyd i gefnogi datblygiad Cymru Heb Drais: Fframwaith a Rennir ar gyfer Atal Trais ymhlith Plant a Phobl Ifanc, casglodd yr VPU a PAC gyfoeth o wybodaeth gan blant a phobl ifanc ledled Cymru mewn perthynas â'u safbwynt ar drais, a beth oedd yr atebion i drais yn eu barn nhw. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau hyn.



Teimlai plant a phobl ifanc mai bwlio oedd y mater mwyaf cyffredin y maent yn ei wynebu. Roeddent yn cydnabod llawer o bethau a allai arwain at rywun yn cael ei erlid yn fwy nag eraill; gan gynnwys rhywioldeb, tlodi a niwroamrywiaeth. Ymhellach, cynigiodd y plant a phobl ifanc atebion i wneud cymdeithas yn fwy cyfartal, gan gynnwys newid y cyfreithiau i amddiffyn pobl, hyrwyddo gwahanol hunaniaethau ac annog pobl i wrando ar ei gilydd.

Er mwyn atal trais ymhellach, teimlai'r plant a'r bobl ifanc fod cynnig cymorth i deuluoedd yn arbennig o bwysig o ran atal trais, ynghyd â chynnig mwy o glybiau ieuenctid, gwasanaethau cymorth a mannau cyfrinachol lle gallai plant a phobl ifanc gael mynediad at gyngor diduedd. Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cydnabod bod diffyg cefnogaeth gan oedolion yr oeddent yn ymddiried ynddynt y gallent droi atynt, ac roeddent am gael gweithgareddau diogel ac ymwybyddiaeth/addysg ar bynciau penodol (ee trosedd cyllyll).

Roedd y plant a'r bobl ifanc yn cydnabod bod gan bawb y pŵer i roi terfyn ar drais ymhlith plant a phobl ifanc. Mae rhai gweithwyr proffesiynol yn helpu plant a phobl ifanc i siarad a rhannu eu profiadau, tra nad yw eraill yn gwneud hynny. Mae angen i blant a phobl ifanc, yn arbennig, gael eu grymuso i rannu eu profiadau a chael y pŵer i ddylanwadu ar newid gan eu bod yn gwybod yn union beth mae plant a phobl ifanc eraill yn ei brofi, a beth maent ei eisiau/ei angen.



**Gofynnwyd i blant a phobl ifanc sut olwg fyddai ar Gymru heb drais iddyn nhw.**



Dyma rai o’u hatebion:

*Byddwn i'n hapusach.*

*Byddwn i'n gadael y tŷ yn amlach.*

*Byddwn i'n teimlo'n ddiogel i fynd allan yn y nos.*

*Byddai plant a phobl ifanc yn teimlo'n rhydd i fynegi eu hunain.*

*Byddai pobl yn fwy parod i dderbyn eraill.*

*Byddai gennym gymdeithas hapusach ac iachach.*

*Byddwn i'n teimlo llai o straen ac yn llai ofnus.*

*Byddai heddwch. Byddai fy meddwl mewn heddwch.*

*Byddai gan bobl lai o broblemau iechyd meddwl.*

*Byddai bywydau plant a phobl ifanc yn fwy pleserus.*


Byddwn i'n cysgu'n well.

Byddai cymdeithas yn fwy agos.

Byddai llai o ddibyniaeth ar y GIG.

Byddai llai o ragfarn a mwy o gydraddoldeb.

Byddem yn gwneud yn well yn yr ysgol.



Ni fyddai ofn ar bobl i fynd allan i wneud ffrindiau newydd.



Byddai gan blant a phobl ifanc ddyfodol mwy disglair y gallant ei gyflawni.

Byddai plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyflawni eu potensial.

Byddwn i'n teimlo'n ddiogel yn fy nghroen fy hun.

Ni fyddai plant a phobl ifanc yn ofni bod nhw eu hunain a dilyn eu breuddwydion.

Byddai gan blant a phobl ifanc fwy o hyder, a byddent yn cymryd mwy o ran, bod yn yr awyr agored yn fwy a bod yn fwy gweithgar a chysylltiedig.

Byddai gan blant a phobl ifanc lai o bryder.



# Mae Cymru heb drais yn un lle mae pawb yn ffynnu.

**CYMRU**
**HEB**
**DRAIS**

cymruhebdrais.com

PHW.ViolencePreventionUnit@wales.nhs.uk

Uned Atal Trais Cymru, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Stryd y Santes Fair, Caerdydd, CF10 1AT

Cymru Heb Drais: Safbwyntiau plant a phobl ifanc.
Ysgrifennwyd gan Dr Alex Walker, Swyddog Canlyniadau Atal Trais, Uned Atal Trais Cymru: 978-1-83766-189-3

© 2023 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i'w nodi i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Oni noder fel arall, mae'r hawlfraint yn y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.